

Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru

Prif ganllawiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd



Cynulleidfa

Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, lleoliadau meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion.

Trosolwg

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnig cefnogaeth ymarferol i ysgolion yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu a chryfhau eu dull o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd (YGaTh). Rhoddir pwyslais ar ymgysylltu sy'n helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn. Mae'n rhoi sylw penodol i'r ffordd o ymgysylltu â theuluoedd plant sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, plant o gefndiroedd difreintiedig a'r rheini sy'n cael llai o gefnogaeth i'w dysgu yn y cartref.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys y ddogfen hon ynghyd â 25 o adnoddau cysylltiedig.

Camau i'w cymryd

I'w ddefnyddio wrth gynllunio ymyriadau i wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n byw mewn tlodi.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Lles Dysgwyr
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3630

e-bost:

wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon yn ogystal â chanllawiau perthnasol eraill ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn dysgu.llyw.cymru/amddifadedd

Dogfennau cysylltiedig

Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (2014)

www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?lang=cy

Ailysgrifennu'r Dyfodol 2015: Blwyddyn Ymlaen (2015)

www.gov.wales/docs/dcells/publications/150630-a-year-on-cy.pdf

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	4
Cyflwyniad	5
Pam gweithio gyda theuluoedd?	5
Heriau wrth ymgysylltu â'r holl deuluoedd	8
Pam ffurfio cysylltiadau â'r gymuned?	9
Amlinelliad o'r pecyn cymorth	10
Thema 1: Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun	12
Thema 2: Sefydlu dull ysgol gyfan o YGaTh	14
Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	16
Thema 4: Helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn	19
Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol	24
Cysylltiadau â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru	27
Gwella ysgolion	27
Mynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd	27
Rhianta yng Nghymru	28
Adborth gennych chi	29
Cydnabyddiaethau	30

Rhagair y Gweinidog



Mae teuluoedd yn ddylanwad cryf ar y ffordd y mae plant yn dod ymlaen yn yr ysgol. Mae ysgolion sy'n uchelgeisiol ac yn llwyddiannus yn cydnabod bod angen iddynt ymgysylltu'n effeithiol â rhieni, gofalmwr a'r gymuned ehangach er mwyn codi safonau a gwella lles dysgwyr.

Drwy gynnwys rhieni a gofalmwr yn addysg eu plant, mae rhwystrau i ddysgu'n cael eu chwalu ac agweddau ac ymddygiad yn yr ysgol yn gwella. Rwyf wedi gweld dros fy hun fod yr ymgysylltu mwyaf ystyrlon ac effeithiol â theuluoedd yn datblygu pan fydd ysgolion yn croesawu mamau, tadau, neiniau a theidiau, a'r teulu estynedig yn

bartneriaid gwerthfawr yn nysg eu plant.

Mae ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn ddylanwad cadarnhaol hefyd. Bydd ysgolion sy'n estyn allan ac yn cynnwys y gymuned ym mywyd yr ysgol a'r ysgol ym mywyd y gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysgol. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhoi dysg yn ei chyd-destun, yn gwella sgiliau sylfaenol oedolion ac yn gosod esiamplau cadarnhaol.

Ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd yw un o'r pedair thema yn *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (2014)*, rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer codi cyrhaeddiad addysgol plant o gymunedau difreintiedig. Mae ysgolion yn dweud wrthym mai hon yw un o'r agweddau mwyaf anodd ar eu rôl. Maen nhw wedi galw am ganllawiau strwythuredig ac adnoddau ymarferol i'w helpu i gynllunio a darparu ar gyfer ymgysylltu effeithiol â'r gymuned a theuluoedd fel rhan o ddull ysgol gyfan. Y canllawiau a'r pecyn adnoddau hwn yw ein hymateb ni i'r alwad honno.

Mae'n glir bod enghreifftiau o waith rhagorol eisoes mewn ysgolion ledled Cymru ond, er mwyn bod yn wir effeithiol, rhaid i ymgysylltu â theuluoedd fod yn rhan o gylch sydd wedi'i gynllunio'n ofalus sy'n pennu blaenoriaethau ar y cyd, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn helpu rhieni/gofalmwr ac athrawon i ymrwymo i gynllun ar y cyd.

Mae ymgyrch 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref' Llywodraeth Cymru yn ategu'r flaenoriaeth hon. Mae'n hyrwyddo ymgysylltu ag addysg y plentyn o'r eiliad y mae'n cychwyn ar ei daith dysgu.

Rwyf yn annog pob ysgol, awdurdod lleol a chonsortium rhanbarthol i ddefnyddio'r adnodd hwn, er mwyn datblygu'r strategaeth ymgysylltu sy'n fwyaf addas i'ch cyd-destun a'ch amgylchiadau. Wrth wneud hynny byddwch yn helpu i sicrhau ein bod yn cymryd cam pwysig ymlaen eto gyda'n gilydd tuag at gyflawni fy uchelgais o ddileu anghydraddoldebau yn neilliannau dysgwyr fel y bydd pob plentyn yng Nghymru'n cyflawni ei botensial, beth bynnag fo'i gefndir.

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Cyflwyniad

Mae teuluoedd a chymunedau'n cael effaith fwy o lawer nag a sylweddolwyd ar gyflawniad plant yn yr ysgol.

Bydd ysgolion sy'n gallu ymgysylltu â'u teuluoedd a grwpiau cymunedol a'u cynnwys fel partneriaid pwysig ac ymarferol mewn addysg yn elwa'n fawr o'u dylanwad wrth geisio gwella safonau a lles dysgwyr. Mae ymgysylltu'n hanfodol hefyd i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o gefndiroedd mwy tlawd a mwy cefnog.

Fodd bynnag, mae heriau'n codi hefyd wrth geisio ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned a theuluoedd. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnig adnoddau ymarferol i ysgolion. Nid yw'n rhoi cyfarwyddyd ond, yn hytrach, yn cynnig fframwaith i helpu ysgolion i'w gwella eu hunain.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i fwriadu hefyd i helpu ysgolion i gwrdd â gofynion y rheoliadau ar gyfer cynlluniau datblygu ysgol a'r safonau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'u gosod gan Estyn.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys:

- **fframwaith** ar gyfer datblygu dull gweithredu'r ysgol, wedi'i seilio ar bum thema
- disgrifiadau o'r hanfodion (yr hyn y dylai pob ysgol ei wneud) a hefyd o'r hyn y mae ysgolion llwyddiannus yn ei wneud – gyda'r nod o **ddangos y ffordd** ar gyfer gwaith yn y dyfodol
- 25 o **adnoddau ymarferol** i'w dewis a'u dethol gan ysgolion, sy'n cymell ysgolion i fyfyrion a chynllunio camau gweithredu, ac yn darparu enghreifftiau o'r hyn y mae ysgolion eraill wedi'i wneud.

" Parental engagement in children's learning makes a difference – it is the most powerful school improvement lever we have."

Harris a Goodall (2007)
Do Parents Know They Matter? (t.70)

Pam gweithio gyda theuluoedd?

Mae ymchwil wedi dangos bod y graddau y mae teuluoedd yn ymwneud â dysg eu plentyn pan yw'n saith oed yn cael dylanwad ar gyrhaeddiad addysgol y plentyn sy'n **chwe gwaith yn fwy** na'r dylanwad sy'n deillio o ansawdd yr ysgol¹.

Po ieuengaf yw'r dysgwr, mwyaf fydd yr effaith gymharol gan rieni/gofalwyr ar gyflawniad – ond hyd yn oed yn 16 oed mae'r effaith gan rieni/gofalwyr yn arwyddocaol iawn, fel bod dysgwyr sy'n cael cefnogaeth barhaus gan eu rhieni'n perfformio'n well mewn arholiadau². Yn 16 oed, mae dysgwyr sy'n cael cefnogaeth gryf ond sydd mewn ysgolion o ansawdd is yn perfformio'n well na'r rhieni sy'n cael cefnogaeth wan mewn ysgolion cryf – a hyn yn dangos eto fod dylanwad rhieni'n drech na'r effaith o ansawdd yr ysgol. Ar ben hynny,

¹ Desforges ac Abouchaar (2003) *The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievement and adjustment*.

² Dufur et al. (2013) *Does capital at home matter more than capital at school? Social capital effects on academic achievement*.

er bod llawer o ddysgwyr sy'n byw mewn tlodi cymharol yn gwneud yn waeth na'u cyfoedion mwy cefnog yn yr ysgol (y 'bwlch tlodi' mewn cyrhaeddiad), mae'r rheini sy'n cael cefnogaeth gryf gan eu rhieni'n gallu mynd yn groes i'r duedd.

Gan mai dim ond 14 y cant o'u hamser y mae plant yn ei dreulio yn yr ysgol, ni ddylai hyn beri syndod. Y cwestiynau pwysig i'w gofyn yw a oes modd helpu teuluoedd i ymwneud yn fwy â dysg eu plentyn? Ac a fydd eu cyflawniadau'n well o ganlyniad?

'Oes' a 'bydd' yw'r atebion i'r ddau gwestiwn. Mae ymchwil wedi dangos bod modd helpu rhieni/gofalwyr, hyd yn oed yn yr amgylchiadau lleiaf addawol, i sicrhau gwelliannau sylfaenol yng nghynnydd eu plentyn yn yr ysgol³. Gall yr effaith fod yn fwy na'r hyn y mae ysgolion yn gallu ei wneud ar eu pen eu hunain drwy ymyriadau gan athrawon yn unig.

Fodd bynnag, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng dau fath o ymgysylltu â theuluoedd.

"Think of family engagement as spinach. Now think of schools as Popeye. Put the two together and you have the strength to accomplish a lot."

PTO Today

1. Ymgysylltu â'r ysgol yn gyffredinol

yn erbyn

2. Ymgysylltu â dysg eu plentyn

Yr ail yw'r nod yr ydyn ni'n gobeithio y bydd ysgolion yn canolbwyntio arno, a dyma'r un a fydd yn dwyn ffrwyth o ran cyflawniadau plant. Mae'n ymwneud â'r agwedd tuag at ddysgu yn y cartref, a'r hyn sy'n digwydd rhwng oedolion a phlant yn y teulu. Mae pethau syml y mae teuluoedd yn eu gwneud yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr o ran cynnydd y plentyn yn yr ysgol – er enghraifft, sicrhau ei fod yn cael noson iawn o gwsg, ei holi am yr ysgol, neilltuo amser ar gyfer darllen neu roi gwybod iddo am eich disgwyliadau o ran ymddygiad. Mae hyn yn cael ei drafod yn Thema 4 yn y pecyn cymorth hwn.

Mae'r math cyntaf, ymgysylltu â bywyd yr ysgol, yn cael ei drafod hefyd yn y pecyn cymorth hwn (Thema 3), yn bennaf am ei fod yn gam cyntaf pwysig yn aml tuag at gynnwys teuluoedd fel partneriaid yn nysg eu plentyn. Gall ddod â manteision eraill i'r ysgol hefyd.



Yn 2014 lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgyrch 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref' i helpu rhieni a gofalwyr i ymgysylltu â dysg eu plentyn. Mae'r ymgyrch hon yn cefnogi ysgolion yn eu gwaith ar ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a, thrwy ddefnyddio'r adnoddau yn y pecyn cymorth hwn ar gyfer YGaTh, bydd ysgolion yn gallu cyfrannu at effaith yr ymgyrch honno.

³ Goodall a Vorhaus (2011) *Review of Best Practice in Parental Engagement Practitioners Summary*, Adran Addysg (Lloegr).

Pum rheswm dros weithio gyda theuluoedd

1. Mae rhieni, gofalwyr ac aelodau o'r teulu ehangach yn cael dylanwad mawr ar safonau ymddygiad a chyrhaeddiad plant yn yr ysgol.
2. YGaTh yw un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o ddelio ag effeithiau amddifadedd ar ganlyniadau addysgol.
3. Gall rhieni/gofalwyr fod yn bartneriaid rhagorol. Mae eu gwybodaeth unigryw am eu plant a'u gwahanol brofiadau a sgiliau a'u hamser gwirfoddoli'n gallu cyfoethogi a chryfhau bywyd yr ysgol.
4. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod ysgolion yn cynnwys YGaTh yn eu cynllun datblygu ysgol ac mae Estyn yn arfarnu gwaith mewn partneriaeth yn ei arolygiadau o ysgolion.
5. Mae pob ysgol yn ymgysylltu â theuluoedd i ryw raddau. Drwy gynnwys ymgysylltu yn ethos yr ysgol, gall hyn fod yn brofiad buddiol a chadarnhaol yn hytrach nag un ymestynnol.

Manteision ymgysylltu â theuluoedd

I blant

- Mae cael anogaeth yn y cartref yn ei gwneud yn haws i blant ddysgu ac mae'n ffactor amddiffynnol ar bwyntiau trosglwyddo.
- Gellir ymateb i'w pryderon yn gyflymach os oes perthynas gadarnhaol rhwng eu teulu a staff yr ysgol.
- Byddant yn hapus pan fydd eu rhieni/gofalwyr yn mwynhau digwyddiadau yn yr ysgol.
- Maent yn fwy tebygol o barhau â'u dysgu ar ôl 16 oed os ydynt yn teimlo bod eu rhieni/gofalwyr yn cefnogi eu dysgu.

I deuluoedd

- Mae ganddynt fwy o allu i helpu ac annog eu plant, ac mae eu plant yn gwneud yn well yn yr ysgol.
- Gallant feithrin eu hyder a'u sgiliau eu hunain.
- Mae perthynas gadarnhaol rhwng rhieni/gofalwyr ac ysgol eu plentyn yn fanteisiol i bawb.

I'r ysgol

- Dylai ymgysylltu effeithiol arwain at welliannau yng nghyrhaeddiad ac ymddygiad y dysgwyr.
- Mae sgiliau ac amser teuluoedd yn ategu sgiliau ac arbenigedd athrawon, felly mae rhieni/gofalwyr ac athrawon yn gallu gwneud mwy gyda'i gilydd nag y mae athrawon yn gallu ei wneud ar eu pen eu hunain.
- Bydd yn hyrwyddo enw da yr ysgol yn y gymuned ac yn gwella morâl y staff.

Heriau wrth ymgysylltu â'r holl deuluoedd

Anaml y bydd ysgolion yn gweld bod ymgysylltu â theuluoedd yn broses unffurf – mae rhai teuluoedd yn tueddu i ryngweithio'n llai aml â'r ysgol, ac mae anghenion gan rai teuluoedd sy'n fwy anodd eu diwallu. Gellir cael rhieni/gofalwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) eu hunain; rhieni/gofalwyr sydd o dan bwysau, oherwydd tlodi, er enghraifft; rhieni/gofalwyr sydd wedi cael profiadau gwael yn yr ysgol eu hunain ac sydd wedi'u dadrithio oddi wrth addysg; a hefyd y rheini sy'n credu mai'r ysgol sy'n llwyr gyfrifol am ddysg eu plant ac yn teimlo 'nad yw'n rhywbeth i mi boeni amdano'.

Mae'n hanfodol bod ysgolion yn dod o hyd i ffordd o chwalu'r rhwystrau hyn er mwyn cyrraedd, yn benodol, teuluoedd y dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, teuluoedd y dysgwyr sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, a'r teuluoedd nad ydynt i'w gweld yn rhoi fawr o gefnogaeth i ddysg eu plentyn. Rydym yn ymhelaethu ar y mater hwn o dan Themâu 3 a 4 yn y pecyn cymorth hwn.

Rhwystrau i ymgysylltu

Os yw'n ymddangos bod teulu'n amharod i ymgysylltu â'r ysgol, gallai hyn fod yn ganlyniad i un neu ragor o'r ffactorau canlynol.

Pwysau amser ar fywyd y teulu: mae rhieni/gofalwyr yn bobl brysur. Gallent fod mewn gwaith amser llawn, neu fod â phlant mewn ysgolion gwahanol, neu'n gweithio drwy'r nos, neu'n cyflawni cyfrifoldebau gofalu ychwanegol.

Amgylchiadau teuluol: gallai strwythur y teulu fod yn gymhleth ar ôl gwahanu a chael partneriaid newydd; gellir cael rhwystrau iaith rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae'n bosibl bod materion eraill yn eu bywyd yn eu llethu ac nad oes ganddynt fawr o egni neu amser meddwl i'w rhoi at ddim byd arall – mae'n beth cyffredin i deuluoedd orfod delio â materion anodd iawn fel tlodi, cyfrifoldebau gofalu, problemau iechyd, pryder cyffredinol neu iselder ôl-enedigol.

Daearyddiaeth a rhwystrau ffisegol: efallai fod teuluoedd yn byw'n eithaf pell, gallent fod yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'n bosibl y bydd y rheini sydd ag anableddau neu broblemau iechyd yn wynebu rhwystrau corfforol.

Diffyg hyder: gallai'r ysgol atgoffa rhai rhieni/gofalwyr am brofiadau gwael a gawsant yn ystod eu hamser nhw yn yr ysgol. Gallent deimlo bod eu diffyg gwybodaeth neu sgiliau'n eu rhoi o dan anfantais, e.e. lefel isel o lythrennedd. Efallai y byddant yn ofni cael eu barnu gan rieni/gofalwyr eraill neu ymarferwyr neu'n ofni cael eu gweld yn rhai sydd 'mewn angen' neu'n 'rhiant/gofalwr gwael'. Mae'n bosibl y byddant yn teimlo nad ydynt yn perthyn i'r diwylliant dosbarth canol a geir yn bennaf yn yr ysgol.

Amheuaeth a drwgdybiaeth: gallai rhieni/goflawyr gredu na fydd yr ysgol yn gwrando arnynt neu'n eu cymryd o ddifri.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn disgrifio rhai pethau syml y gall ysgolion eu gwneud er mwyn helpu i chwalu'r rhwystrau hyn.

Pam ffurfio cysylltiadau â'r gymuned?

Nid yw ysgolion yn bodoli ar eu pen eu hunain: maent yn rhan allweddol o rwydwaith o sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol sy'n gwasanaethu ac yn cynnal y gymuned leol. Gallant gyfrannu'n helaeth at gydlyniant ac at fywyd y gymuned – gallant hefyd gael

"Mae angen pentref cyfan i fagu plentyn."

Dihareb o Affrica

cefnogaeth sylweddol gan y rhwydwaith hwn, yn enwedig yn eu gwaith o ymgysylltu â theuluoedd. Nid oes angen i ysgolion ysgwyddo'r holl waith ymgysylltu ar eu pen eu hunain.

Mae **gweithio amlasiantaethol** gydag asiantaethau statudol eraill yn bwysig iawn, e.e. drwy ddull y Tîm o Amgylch y Teulu. Mae hyn yn sicrhau bod modd diwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu ddysgwyr o deuluoedd sy'n wynebu lluo o broblemau, a hefyd fod yr ysgol yn gallu parhau i ganolbwyntio'n ddiwyro ar ddeilliannau dysgu.

Mae **partneriaid cymunedol** eraill yn gallu chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau'r ysgol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd, a gallant hefyd fod yn bartneriaid yn addysg y plant drwy eu gwaith eu hunain. Drwy'r rhain gall ysgolion fanteisio ar ffynhonnell bwysig o gefnogaeth sy'n gallu cryfhau'r ysgol.

Rydym yn ymhelaethu ar weithio amlasiantaethol a phartneriaethau cymunedol o dan Thema 5 yn y pecyn cymorth hwn.

Amlinelliad o'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys pum thema ac mae crynodeb ohonynt yn y tabl. Rydym yn ymhelaethu ar y themâu hyn yn yr adrannau sy'n dilyn gydag adnoddau penodol sydd wedi'u llunio i helpu ysgolion i ystyried a datblygu eu dull o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd (YGaTh).

Thema	Dylai pob ysgol sicrhau ...	Mewn ysgolion llwyddiannus ...
1 Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun	Mae dull yr ysgol o YGaTh wedi'i ddisgrifio'n glir yn y cynllun datblygu ysgol ac mae uwch arweinwyr penodol yn hyrwyddo'r agenda hon. Mae'r ysgol yn myfyrio ar ymarfer cyfredol ac yn cynllunio gwaith yn y dyfodol.	Mae YGaTh yn rhan annatod o ethos yr ysgol ac mae teuluoedd yn cael eu gweld yn bartneriaid yn addysg eu plentyn. Mae ymgysylltu'n cael ei ystyried yn faes blaenoriaeth er mwyn gwella safonau, yn enwedig ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r ysgol wedi mapio ei thaith ar gyfer ei gwella ei hun.
2 Sefydlu dull ysgol gyfan o YGaTh	Mae'r ysgol wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r agenda ymysg staff ac i feithrin gallu'r ysgol i ymgysylltu. Mae un neu ragor o uwch aelodau staff yn arwain dull ysgol gyfan yr ysgol.	Mae nifer o staff sydd â rôl sy'n cynnwys gweithgareddau ymgysylltu diffiniedig, a darperir cefnogaeth a hyfforddiant priodol ar eu cyfer. Mae un neu ragor o staff sydd â rolau penodol yn cynnal y dull ysgol gyfan, e.e. ynghylch presenoldeb neu ymgysylltu â grwpiau penodol o deuluoedd.
3 Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	Mae'r ysgol yn lle croesawgar i deuluoedd, mae'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu ac yn darparu sianel glir ar gyfer mynegi barn gan deuluoedd. Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech ychwanegol i ymgysylltu o gwmpas pwyntiau trosglwyddo ac i ymgysylltu â theuluoedd y mae wedi'i chael yn anodd eu cyrraedd cynt.	Mae'r ysgol yn teilwra ei gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn ôl anghenion rhieni/gofalwyr ar sail dealltwriaeth o rwystrau i ymgysylltu. Cynhelir digwyddiadau 'dod i adnabod' cynhwysol yn rheolaidd, ac mae gweithgareddau cymdeithasol a chyfleoedd eraill i deuluoedd wirfoddoli i gyfrannu i fywyd yr ysgol. Ymgynghorir â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd, gwrandewir ar eu llais, ac maent yn ymddiried yn yr ysgol i ddelio â chwynion yn dda.

Thema	Dylai pob ysgol sicrhau ...	Mewn ysgolion llwyddiannus ...
4 Helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn	Mae'r ysgol yn defnyddio nosweithiau rhieni/gofalwyr a rhai gweithgareddau eraill i helpu ac annog teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn yn effeithiol, gan ganolbwyntio ar deuluoedd y mae'n ymddangos eu bod yn darparu llai o gefnogaeth i ddysgu, ac ar deuluoedd dysgwyr sydd o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n tanberfformio ar hyn o bryd.	Mae teuluoedd yn ymwneud fel partneriaid â dysg eu plant ac yn cymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau dysgu fel teulu sy'n meithrin eu sgiliau. Mae ymyriadau ymgysylltu'n cael eu cynllunio ar sail dealltwriaeth o amgylchiadau, anghenion a dymuniadau teuluoedd. Darperir cyfleoedd hyfforddi penodol i gefnogi rhieni/gofalwyr i blant sydd ag ADY.
5 Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol	Mae gan yr ysgol berthnasoedd effeithiol â'r lleoliadau sy'n ei bwydo er mwyn hwyluso trosglwyddo. Mae staff wedi'u hyfforddi'n dda mewn materion diogelu plant ac yn gwneud defnydd o weithio amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu lluo o broblemau.	Mae'r trosglwyddo rhwng ysgolion yn cael ei gynllunio ac mae'n ddi-dor. Mae'r ysgol, gan weithio gyda rhieni/gofalwyr, yn datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol mewn ffordd strategol er mwyn cryfhau'r ymgysylltu â theuluoedd, cryfhau'r ysgol, a gwella safonau.

Pecyn cymorth – Thema 1: Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun

Mae arweinyddiaeth ddosbarthol effeithiol yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n dda â'r gymuned a theuluoedd. Mae nifer o astudiaethau achos o ysgolion sy'n ymgysylltu'n eithriadol o dda yn dangos mai arweinyddiaeth gryf o'r lefel uchaf yw'r elfen bwysicaf.

Dylai pob ysgol:	Adnoddau Thema 1
gyfeirio'n glir at YGaTh yn y cynllun datblygu ysgol yn unol â rheoliadau cynllun datblygu ysgol	Cynlluniau datblygu ysgol (Adnodd 1)
bod ag aelod penodol o'r uwch dîm arwain sy'n gyfrifol am yr agenda hon a hefyd, o bosibl, llywodraethwr penodol	Arweinwyr a llywodraethwyr (Adnodd 2)
cynnal archwiliad o effeithiolrwydd ei harferion presennol ar gyfer YGaTh er mwyn ysgogi myfyrio a chynllunio ar gyfer gwaith pellach.	Archwiliad camau cyntaf syml (Adnodd 3)
Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau Thema 1
(Ethos) mae arweinwyr yn deall bod teuluoedd yn chwarae rhan ganolog a hanfodol mewn addysg plant. Maent yn credu'n gryf fod ymdrechion i weithio gyda theuluoedd a ffurfio partneriaethau cymunedol yn gallu talu ar eu canfed i'r ysgol. Maent yn cyfleu'r gred hon i'w rhanddeiliaid ac yn mabwysiadu dull ysgol gyfan er mwyn ei chyflawni. Hyrwyddir YGaTh ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.	- Arweinwyr a llywodraethwyr (Adnodd 2) - Dogfen PowerPoint ar YGaTh (Adnodd 4)
(Fframwaith) mae pob un o'r pum thema sydd wedi'u disgrifio yn y pecyn cymorth hwn yn cael ei hyrwyddo yn yr ysgol.	(Wedi'i ddisgrifio yn y pecyn cymorth hwn)
(System sy'n ei gwella ei hun) drwy ei phrosesau ar gyfer hunanwerthuso a datblygu'r cynllun datblygu ysgol, mae'r ysgol yn archwilio ei harferion cyfredol ar gyfer YGaTh yn rheolaidd ac yn gwerthuso effaith ei gweithgareddau presennol. Mae'r ysgol yn gweithio gyda chynghorwyr herio ar yr archwiliad hwn er mwyn pennu ffyrdd o wella ei dull o weithredu. Mae'r ysgol yn meithrin ei gallu drwy hyfforddiant staff a chyfleoedd dysgu proffesiynol yn y clwstwr ysgolion neu drwy gefnogaeth rhwng ysgolion.	- Offeryn archwiliad uwch (Adnodd 5) - Gwerthuso (Adnodd 6) - Arolygiadau Estyn ac YGaTh (Adnodd 7)
(Polisi a thargedau) mae'r ysgol wedi ymgynghori ar nodau YGaTh sydd wedyn yn cael eu nodi'n glir yn flaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol, ynghyd â thargedau cysylltiedig. Nod yr ymgysylltu yw helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn, a chanolbwyntir yn benodol ar gyrraedd teuluoedd y plant hynny sy'n tanberfformio, teuluoedd plant o gefndiroedd difreintiedig, a'r rheini sy'n cael llai o gefnogaeth i'w dysgu yn y cartref.	Cynlluniau datblygu ysgol (Adnodd 1)

Ciplun

Cynradd

Yn **Ysgol Gynradd Herbert Thompson**, creu cysylltiadau cryfach â rhieni/gofalwyr yw un agwedd ar weledigaeth ehangach i roi lles ar ganol cenhadaeth yr ysgol a chydweithio'n agosach â nifer o asiantaethau cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau plant yr awdurdod lleol, sefydliadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd a Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ysgol yn edrych yn bellach na gât yr ysgol ac yn delio â'r rhwystrau yn y cartref a'r gymuned. Mae'n rhoi pwys mawr ar berthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Mae'n gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd â rhieni/gofalwyr fel y gallant chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac ymddiddori'n fanwl yn addysg eu plant. Ymhlith yr ymyriadau a gafwyd y mae Cyngor Rhieni sy'n hybu ymgysylltu a llais y rhiant/gofalwr; canolfan rhieni'r ysgol – sy'n agor bob dydd ac yn rhoi cyfle i'r mamau a thadau gymysgu ar safle'r ysgol – a darpariaeth dysgu oedolion, yn ogystal â staffio priodol a datblygiad proffesiynol⁴.

Uwchradd

Ers ei benodi yn 2010 mae pennaeth **Ysgol Uwchradd y Rhyl** wedi arwain yr ysgol ar ddatblygu ei gwaith drwy bartneriaethau strategol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm, gyda'r nod ychwanegol o helpu i ddelio â materion ymddygiadol ac ailgysylltu â dysgwyr sydd wedi ymddieithrio. Ymhlith partneriaid allanol yr ysgol y mae sefydliadau ieuencid, Clwb Pêl-droed y Rhyl, Cymunedau yn Gyntaf a gwersyll y fyddin yn yr ardal. Bydd dysgwyr sydd wedi ymddieithrio yn gweithio gyda hyfforddwyr dysgu i ddewis pynciau i'w hastudio o'r cwricwlwm arferol yn ogystal â dewisiadau ychwanegol sy'n cael eu cynnig gan y partneriaid allanol, megis garddio, chwaraeon yn y gymuned, gwasanaethau cyhoeddus a chyfryngau digidol. Mae dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 hefyd yn cael mantais o'r cwricwlwm cyfoethocach. Mae cyrhaeddiad a phresenoldeb wedi gwella, mae nifer y gwaharddiadau wedi gostwng ac mae dysgwyr wedi meithrin mwy o ddiddordeb a hyder yn eu dyfodol.

Arbennig

Mae **Ysgol Arbennig St Christopher** yn Wrecsam wedi sefydlu grŵp cefnogi teuluoedd sy'n cael ei arwain gan y tîm arweinyddiaeth ysgol. Mae'r fforwm effeithiol hwn i rieni/gofalwyr yn eu galluogi i gyfrannu'n ystyrion i fywyd yr ysgol gan greu rhwydwaith o deuluoedd sy'n cefnogi ei gilydd. Drwy'r grŵp rhieni/gofalwyr hwn mae'r ysgol yn gallu sicrhau bod anghenion y teuluoedd yn cael eu diwallu'n llawn a thrwy ddefnyddio rhwydwaith y grŵp mae'r ysgol yn gallu estyn allan at deuluoedd eraill a fyddai'n amharod i gymryd rhan fel arall. Mae'r grŵp hefyd wedi dod yn fwrdd seinio ar gyfer mentrau newydd, ac yn cyfrannu at nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol drwy gymryd rhan wrth wneud penodiadau newydd a rhannu ei sgiliau a'i arbenigedd â staff.

⁴ Mae rhagor o wybodaeth am ddull gweithredu Ysgol Gynradd Herbert Thompson mewn astudiaeth achos ar arferion gorau gan Estyn yn www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6812312.

Pecyn cymorth – Thema 2: Sefydlu dull ysgol gyfan o YGaTh

Mae tystiolaeth yn dangos bod YGaTh yn rhoi canlyniadau mwy cadarnhaol os yw'n dod yn gyfrifoldeb i bawb – o athrawon dosbarth i staff y dderbynfa, cynorthwywyr addysgu a'r pennaeth. Mae llawer o ysgolion wedi gweld gwerth hefyd mewn cael un neu ragor o rolau staff i gynnal y dull ysgol gyfan ac i roi arweiniad o bosibl ar bresenoldeb, materion iechyd neu ddiogelu plant.

Dylai pob ysgol:	Adnoddau'r pecyn cymorth
gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r agenda ar draws yr ysgol, e.e. drwy gynnal diwrnod HMS neu gynnwys YGaTh yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd	Dogfen PowerPoint ar YGaTh (Thema 1: Adnodd 4)
cymryd camau i feithrin gallu'r ysgol ar gyfer YGaTh, e.e. drwy hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu plant, dysgu proffesiynol ynghylch delio â sgysiau anodd, a chyfleoedd dysgu proffesiynol rhwng ysgolion	Dadansoddiad o anghenion datblygu ar gyfer YGaTh (Thema 2: Adnodd 1)
bod ag o leiaf un aelod staff sy'n arwain ac yn cynnal y gweithredu ar y dull ysgol gyfan – bydd o leiaf un aelod penodol o'r uwch dîm arwain yn gwneud hyn (gweler Thema 1), ond mae nifer o ysgolion wedi gweld ei bod hefyd yn fuddiol cael aelod o staff nad yw'n addysgu i gyflawni'r rôl hon yn ogystal.	Rolau staff YGaTh (Thema 2: Adnodd 2)
Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau'r pecyn cymorth
(Rolau clir) bydd YGaTh wedi'i ddiffinio'n glir yn rolau nifer o'r staff, a bydd ganddynt dargedau perfformiad cysylltiedig sydd wedi'u halinio â'r flaenoriaeth i YGaTh yn y cynllun datblygu ysgol ac wedi'u cysylltu â gwell deilliannau i ddysgwyr.	Rolau staff YGaTh (Thema 2: Adnodd 2)
(Meithrin gallu) mae dadansoddiad o anghenion datblygu wedi'i gwblhau ar gyfer yr holl staff (gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu) sy'n cynnal gweithgareddau YGaTh a threfnir cyfleoedd dysgu priodol, gan ddefnyddio cyfleoedd am ddysgu rhwng ysgolion a diwrnodau HMS i gwrdd â'r anghenion hyn. Cynorthwyir staff yn ystod eu gwaith YGaTh drwy rwydweithiau cefnogi neu oruchwyliaeth. Cynigir cyfleoedd hyfforddi neu ddatblygu hefyd i lywodraethwyr ac aelodau o grwpiau rhieni/gofalwyr.	Dadansoddiad o anghenion datblygu ar gyfer YGaTh (Thema 2: Adnodd 1)
mae gweithiwr allweddol wedi'i ddynodi ar gyfer pob dysgwr/teulu – yr athro dosbarth/athrawes ddosbarth yn aml, ond mewn rhai achosion gall fod yn weithiwr ymgysylltu â theuluoedd/swyddog cyswllt/gweithiwr cymorth bugeiliol. Os yw ysgolion yn ei chael yn anodd ymgysylltu â rhai teuluoedd, gwneir ymdrech i sicrhau bod pwynt cyswllt ar gyfer teuluoedd sy'n gyson a hawdd mynd ato ac sydd â sgiliau perthnasol a chefnogaeth briodol.	Rolau staff YGaTh (Thema 2: Adnodd 2) Cyrraedd yr holl deuluoedd (Thema 3: Adnodd 3)

Ciplun

Cynradd

Mae **Ysgol Babanod a Meithrin Glan Gele** yn cynnal dull ysgol gyfan o YGaTh sy'n cael ei arwain gan bennaeth egnïol ac yn cael ei gefnogi gan y corff llywodraethu, fforwm rhieni/gofalwyr a grŵp cyfeillion. Mae YGaTh yn rhan annatod o ethos yr ysgol ac wedi'i adlewyrchu yn rolau'r holl staff. Mae'r holl athrawon yn ymgysylltu â theuluoedd eu dysgwyr yn wythnosol drwy Logiau Dysgu a 'sesiynau rhannu' ar ôl ysgol, a hefyd drwy sesiynau rhiant/gofalwr bartner rheolaidd ac mewn digwyddiadau 'cwrdd â'r athrawon'. Mae staff yn cymryd rhan flaenllaw hefyd mewn gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cynnwys dosbarthiadau rhianta, gweithgareddau i'r teulu a rhaglenni dysgu fel teulu. Mae'r dull ysgol gyfan yn cael ei ategu gan waith cynorthwydd addysgu cyswllt â theuluoedd (sy'n cael ei ariannu gan y Grant Amddifadedd Disgyblion) sy'n helpu teuluoedd a dysgwyr sydd wedi'u targedu er mwyn ymgysylltu â nhw a sicrhau eu bod mewn lle i lwyddo.

Uwchradd

Mae dull ysgol gyfan **Ysgol Uwchradd Casnewydd** yn cynnwys yr holl staff addysgu – mae sesiwn un awr ar gyfer cyswllt â'r cartref ar amserlen pob un ohonynt pryd y byddant yn cysylltu â rhieni/gofalwyr plant yn eu grŵp tiwtor – galwadau ffôn sy'n gadarnhaol fel arfer i dynnu sylw at un agwedd galonogol ar gyflawniad academaidd y myfyriwr, ei ymagwedd at fywyd yr ysgol neu ei ymddygiad. Roedd staff wedi cofnodi 17,000 o alwadau/negeseuon yn 2012–13. Mae'r dull ysgol gyfan yn cael ei ategu gan waith swyddog ymgysylltu â theuluoedd, sydd wedi'i ariannu gan y Grant Amddifadedd Disgyblion, sy'n ceisio cymell teuluoedd dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i gymryd mwy o ran ym mywyd yr ysgol. Mae'r dull ysgol gyfan hefyd yn cynnwys ymdrechion penodol ynghylch pwyntiau trosglwyddo Blwyddyn 6/Blwyddyn 7 (tiwtoriaid Blwyddyn 7 yn ymweld ag ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol ac yn cwrdd â rhieni/gofalwyr), diwrnodau adolygu academaidd, a gweithdai a digwyddiadau dysgu rheolaidd ar gyfer rhieni/gofalwyr.

Arbennig

Mae **Ysgol Tŷ Gwyn** yn ysgol arbennig i bob oedran sy'n darparu ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dwys a chymhleth. Mae Canolfan Deuluoedd yn yr ysgol sy'n agor bob diwrnod o'r wythnos ac sydd yng ngofal un cynorthwydd addysgu lefel uwch ac un uwch gynorthwydd addysgu. Mae'r ganolfan yn darparu amrywiaeth fawr o gymorth a hyfforddiant i deuluoedd plant 0–19 oed, gan gynnwys hyfforddiant y Blynyddoedd Rhyfeddol i rieni/gofalwyr, cymorth therapi, therapi cyffwrdd, llyfrgell deganau a chanolfan technoleg gynorthwyol, cwnsela, ymweld â chartrefi a gwaith allgymorth, sesiynau celfyddydau creadigol a gwersi Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY). Mae'r ysgol yn gwerthuso'r holl weithgareddau drwy holiaduron a chyfweiliadau wyneb yn wyneb a cheir lefel uwch o ymgysylltu a gweithgarwch gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned oherwydd amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael.

Pecyn cymorth – Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol

Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol a meithrin ymddiriedaeth a pharch rhwng ysgolion a theuluoedd yw'r man cychwyn ar gyfer gwaith gan yr ysgol i helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn (Thema 4). Gelwir hyn weithiau'n 'broses uno'. Mae cyfathrebu da o'r ddwy ochr yn elfen allweddol.

Dylai pob ysgol:	Adnoddau Thema 3
sicrhau bod ei hysgol yn groesawgar i deuluoedd, a chymryd camau i ddod i adnabod ei theuluoedd	- Ysgol groesawgar (Adnodd 1) - Dod i adnabod eich teuluoedd (Adnodd 2)
ymdrechu'n neilltuol i ddod i adnabod teuluoedd o gwmpas pwyntiau trosglwyddo	Trosglwyddo (Adnodd 4)
ymdrechu'n neilltuol i ymgysylltu â rhai grwpiau o deuluoedd, gan gynnwys teuluoedd dysgwyr sy'n tanberfformio, teuluoedd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a theuluoedd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	Cyrraedd yr holl deuluoedd (Adnodd 3)
defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu yn unol ag anghenion a dewisiadau teuluoedd – dylai pob ysgol ymgysylltu â rhieni/gofalwyr heblaw drwy lythrau ysgol a nosweithiau rhieni/gofalwyr ac, yn benodol, dylai fanteisio ar gyfleoedd o ddydd i ddydd i gysylltu'n anffurfiol â rhieni/gofalwyr, wrth gât yr ysgol, yn nigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol, neu drwy dechnolegau cyfathrebu newydd	- Dulliau cyfathrebu (Adnodd 5) - Ailfeddwl am nosweithiau rhieni/gofalwyr (Adnodd 6)
darparu ffyrdd rhwydd i rieni/gofalwyr fynegi eu barn ac ymateb i ymgynghori ar faterion penodol.	Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr (Adnodd 7)
Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau Thema 3
(Croesawgar) mae'r ysgol yn lle croesawgar sydd â man ar gyfer rhieni/gofalwyr ac sy'n dangos yn glir ei bod yn eu croesawu a'u gwerthfawrogi. Mae athrawon yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd o ddydd i ddydd er mwyn meithrin perthnasoedd cadarnhaol, gan ddefnyddio technolegau cyfathrebu newydd i ategu cyswllt wyneb yn wyneb.	- Ysgol groesawgar (Adnodd 1) - Dulliau cyfathrebu (Adnodd 5) - Ailfeddwl am nosweithiau rhieni/gofalwyr (Adnodd 6)

Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau Thema 3
• (Lleisiau rhieni/gofalwyr) holir pobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt, a beth yr hoffent ei weld yn digwydd. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon/Cyngor Rhieni neu grŵp arall yn cael ei rymuso a'i gefnogi i ehangu ei gylch gwaith fel ei fod yn chwarae rhan bwysig mewn YGaTh a thrwy ddarparu sianel gyfathrebu ar gyfer ymgynghori â rhieni/gofalwyr a gwrando ar eu llais a gweithredu arno.	• Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr (Adnodd 7)
• (Dull cynhwysol a theilwredig) mae'r ysgol yn deall y rhwystrau i ymgysylltu ac anghenion teuluoedd penodol. Mae'r ysgol hefyd yn pennu ffyrdd o gwrdd â'r anghenion hyn drwy ddefnyddio asiantaethau allanol penodol sy'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu. Mae wedi datblygu ffyrdd cefnogol a chynhwysol o weithio. Croesewir aelodau o'r teulu ehangach (neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd hŷn), a gellir darparu cyfleusterau cyfieithu, cludiant neu ofal plant i hwyluso ymgysylltu. Mae'r ysgol yn cydnabod bod rhai rhieni/gofalwyr yn amharod i gymryd rhan o ganlyniad i brofiadau gwael a gawsant yn yr ysgol ac yn darparu ffyrdd cadarnhaol iddynt gymryd rhan ar lefel sy'n dderbyniol iddynt. Mae dysgwyr yn chwarae rhan drwy gymell eu rhieni/gofalwyr i ymwneud â'r ysgol ac yn helpu i feddwl am syniadau i gyflawni hyn.	• Dod i adnabod eich teuluoedd (Adnodd 2) • Cyrraedd yr holl deuluoedd (Adnodd 3) • Costau addysg (Adnodd 8)
• (Trosglwyddo) mae pwyntiau trosglwyddo (rhwng ysgolion, cyfnodau allweddol a blynyddoedd ysgol) yn cael eu hwyluso drwy gynnal sesiynau anffurfiol 'cwrdd â'r athrawon/cwrdd â'r teulu' i feithrin perthnasoedd, a rhannu gwybodaeth (gan ddilyn protocolau angenrheidiol ar gyfer diogelu data). Gofynnir i deuluoedd gynnig awgrymiadau am ffyrdd gwell o gynllunio digwyddiadau. Ymwelir â chartrefi rhai teuluoedd.	• Trosglwyddo (Adnodd 4)
• (Digwyddiadau cymdeithasol) cynhelir digwyddiadau cymdeithasol i'w gwneud yn haws i deuluoedd gymryd rhan a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'i gilydd a staff yr ysgol. Gwneir ymdrech i sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau'n gynhwysol ac nad yw eu costau'n rhy uchel. Anogir rhieni/gofalwyr i gymell rhieni/gofalwyr eraill i gymryd rhan.	• Cyrraedd yr holl deuluoedd (Adnodd 3) • Costau addysg (Adnodd 8)
• (Gwirfoddoli) mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i deuluoedd gyfrannu o'u hamser a'u sgiliau er mwyn yr ysgol, mewn gweithgareddau rheolaidd (e.e. wythnosol) neu achlysurol. Gofynnir yn bersonol ac yn uniongyrchol i aelodau o deuluoedd gymryd rhan, a bydd yr ysgol yn cyfeirio eu sgiliau a'u brwdfrydedd i ddiwallu anghenion yr ysgol. Mae gwirfoddolwyr yn helpu mewn digwyddiadau dysgu fel teulu. Mae aelodau o'r gymuned/teuluoedd yn cael cyfle'n aml i feithrin eu sgiliau eu hunain yr un pryd (e.e. sgiliau TG).	• Dod i adnabod eich teuluoedd (Adnodd 2)

Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau Thema 3
(Delio â gwrthdaro a chwynion) mae trefniadau clir wedi'u gwneud i alluogi staff a rhieni/gofalwyr i ddatrys materion gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth os oes angen. Mae'r ysgol yn delio'n dda â chwynion yn unol â'r weithdrefn gwynion y mae wedi'i chyhoeddi ac mae'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu trafod ar lefel yr ysgol.	Delio â gwrthdaro a chwynion (Adnodd 9)

Ciplun
Cynradd
Mae'r berthynas rhwng Ysgol Gynradd Ynys y Barri a theuluoedd yn gryf iawn. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth yn rheolaidd am fywyd a gwaith yr ysgol drwy lythyrau dosbarth wythnosol a thrwy'r defnydd eithriadol o gyfryngau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol a rheolaidd yng ngweithgareddau'r ysgol, gan gynnwys diwrnodau 'dangos a gweld', cyngherddau, teithiau cerdded a dysgu i rieni/gofalwyr a sesiynau teuluol ar ddydd Gwener. Mae'r ysgol yn rhedeg caffi agored cyn nifer o'i digwyddiadau lle mae cyfle da i rieni/gofalwyr gwrdd â staff mewn awyrgylch hamddenol. Mae'r prosiect 'Men behaving Dadly' a gynhaliwyd gan yr ysgol yn ddiweddar wedi galluogi nifer o dadau i gefnogi dysg eu plant yn effeithiol. Mae'r holl fentrau llwyddiannus hyn yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn teimlo bod croeso mawr iddynt yn yr ysgol⁵.
Uwchradd
Mae Ysgol Gyfun Bryngwyn yn ymfalchïo yn ei chyfeillgarwch ac yng nghryfder ei pherthnasoedd â theuluoedd. Mae'r ysgol yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr drwy negeseuon testun, ap, pyrth rhith-ddysgu, nosweithiau rhieni/gofalwyr, nosweithiau gwobrwyo, digwyddiadau arbennig, ei gwefan, a hefyd drwy 'gynlluniwr myfyriwr' sy'n darparu gwybodaeth hanfodol i deuluoedd ac yn sianel gyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol. Drwy gydweithio'n agos â theuluoedd, mae'r ysgol wedi gwella presenoldeb yn sylweddol. Anfonir neges llais a neges testun ar ôl pob absenoldeb. Mae swyddog lles addysgol a swyddog presenoldeb mewnol yr ysgol yn meithrin perthnasoedd â llawer o deuluoedd gan ddarparu cefnogaeth i ddelio â materion teuluol sydd yn aml wrth wraidd absenoldeb sydd heb ei awdurdodi.

⁵ O Adroddiad Arolygu Estyn 2014.

Pecyn cymorth – Thema 4: Helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn

Gall ysgolion fanteisio i'r eithaf ar ymgysylltu â theuluoedd drwy ganolbwyntio'n ddiwyro ar weithio gyda theuluoedd fel partneriaid yn nysg eu plentyn. Wrth i'r plentyn fynd yn hŷn, bydd y ffyrdd gorau i'r teulu gefnogi ei ddysgu'n newid. Bydd gweithgareddau ymgysylltu'n fwyaf effeithiol os mai eu hamcan yw helpu teuluoedd i roi'r gefnogaeth hon, ac os ydynt wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o'r newidiadau hyn. Mae angen eu seilio hefyd ar ddealltwriaeth o'r hyn y mae ar rieni/gofalwyr ei eisiau a'i angen gan yr ysgol er mwyn gallu gweithio mewn partneriaeth.

Mae'n bosibl y bydd teuluoedd yn wynebu mwy o heriau wrth gefnogi dysgu wrth i'w plentyn fynd drwy'r ysgol uwchradd, gan y bydd eu plentyn yn ennill mwy o ymreolaeth, bydd y cwricwlwm yn fwy cymhleth, bydd mwy nag un athro/athrawes gan ddysgwyr, bydd yr ysgol yn fwy ac yn bellach o'r cartref fel arfer, a bydd rhieni/gofalwyr yn dod i adeilad yr ysgol yn llai aml. Mewn gwirionedd, mae ymchwil yn dangos ei bod yn dod yn llai pwysig iddynt gymryd rhan yn uniongyrchol mewn gweithgareddau dysgu (e.e. gwaith cartref) ond bod ffyrdd anuniongyrchol pwysig eraill iddynt helpu plant i ddysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd, fel y mae'r tabl canlynol yn ei ddangos. Gall teuluoedd wynebu mwy o heriau hefyd wrth gefnogi dysgu os oes anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gan eu plentyn.

"School-based family and parent support activities should have the improvement of children's learning as a clear and consistent goal."

Goodall a Vorhaus (2011) *Best Practice in Parental Engagement – Practitioner's Summary* (t.4)

"Parents have to engage with student learning in the home for any significant and sustained learning to occur."

Harris et al. (2009) *Do Parents Know They Matter? Raising achievement through parental engagement*

Rhai o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i deuluoedd helpu plant i ddysgu (mae'r rhain wedi'u trafod ymhellach yn yr adnoddau o dan y thema hon)

Cyfnod Sylfaen	Oedran ysgol gynradd 7–11	Oedran ysgol uwchradd
- Sgyrsiau sy'n ysgogi chwilfrydedd naturiol plant a chariad at ddysgu gan feithrin sgiliau iaith a chyfathrebu hefyd. - Chwarae rôl, i hybu siarad â phwrpas.	- Dangos diddordeb yn ei ysgol a gweithgareddau ysgol. - Cyflew gwerth addysg a'i helpu i deimlo ei fod yn perthyn yn yr ysgol. - Sicrhau ei fod yn mynd i'r gwely ar amser rheolaidd, yn cael brecwast ac yn mynd i'r ysgol.	- Cyflew gwerth addysg, modelu perthnasoedd parchus ag athrawon a helpu eu plentyn i deimlo ei fod yn perthyn yn yr ysgol. - Ymddiddori yn y pynciau y mae'n ei ddilyn yn yr ysgol.

Rhai o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i deuluoedd helpu plant i ddysgu (mae'r rhain wedi'u trafod ymhellach yn yr adnoddau o dan y thema hon)

Cyfnod Sylfaen	Oedran ysgol gynradd 7–11	Oedran ysgol uwchradd
- Darllen storïau, siarad am y lluniau. - Addysgu caneuon a rhigymau. - Nodi a chwarae â llythrennau a rhifau. - Peintio a thynnu lluniau. - Meithrin y gallu i ganfod cyfatebiaeth rhwng dau beth, e.e. pâr o hosanau. - Ymweld â'r llyfrgell, amgueddfeydd ac orielau. - Tripiau yn yr awyr agored i barciau, coedwigoedd, traethau. - Cefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol. - Helpu eu plentyn i fod 'yn barod i'r ysgol'.	- Treulio 10 munud bob diwrnod yn darllen gyda'r plentyn, unrhyw destun, unrhyw le. - Manteisio ar gyfleoedd ym mywyd pob dydd i ddefnyddio rhifau a sôn am 'pa mor fawr/pa faint/pa nifer'. - Tripiau i amgueddfeydd, y llyfrgell ac orielau celf a gweithgareddau allgwricwlar. - Gweithio gyda'r ysgol i helpu'r plentyn gydag unrhyw faterion penodol. - Cefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol.	- Ei gymell i ganolbwyntio ar ddysgu a gwaith cartref, gan gefnogi ei ymreolaeth hefyd. - Sicrhau ei fod yn mynd i'r gwely ar amser rheolaidd, yn cael brecwast ac yn mynd i'r ysgol. - Cyfleu dyheadau a dathlu cyflawniadau, gan fod y ddau beth hyn yn gallu bod yn ysgogiadau cryf iawn i blant o'r oed hwn. - Darparu amgylchedd yn y cartref lle y gall astudio (heb ddim i dynnu ei sylw). - Annog plant i ddarllen, ac i siarad am y llyfr y maent yn ei ddarllen, beth maent wedi'i ddarllen yn y papur newydd neu'r ffilm y maent wedi'i gwyllo. - Cynnwys plant mewn tasgau o gwmpas y cartref, megis sut i ddeall biliau neu gynllunio tripiau neu gynllunio gwariant/cynilo. - Tripiau i amgueddfeydd a chanolfannau celfyddydol a diwylliannol. - Gweithgareddau allgwricwlar, megis chwaraeon, gweithgareddau creadigol a diwylliannol, sy'n ei helpu i gymhwyso ei wybodaeth a meithrin sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. - Gweithio gyda'r ysgol i helpu'r plentyn i ddelio ag unrhyw faterion penodol. - Helpu'r plentyn i ddewis cyrsiau a rhoi arweiniad iddo wrth gynllunio ar gyfer dysgu ôl-16.

Dylai pob ysgol:	Adnoddau'r pecyn cymorth
wneud defnydd da o nosweithiau rhieni/gofalwyr i helpu teuluoedd i ddarparu cefnogaeth ar gyfer dysgu a hefyd i ddarparu adborth o ansawdd da am gynnydd y dysgwr mewn ffordd y mae rhieni/gofalwyr yn gallu ei deall	Ailfeddwl am nosweithiau rhieni/gofalwyr (Thema 3: Adnodd 6)
manteisio ar gyfleoedd eraill i roi gwybod i deuluoedd am y ffyrdd mwyaf effeithiol iddynt gefnogi dysg eu plentyn, a'u helpu i weithredu ar hyn, e.e. cynllunio tasgau gwaith cartref y bydd dysgwyr yn gweithio arnynt gyda'u teuluoedd, darparu negeseuon mewn gwaith cartref neu lyfrau cyswllt cartref-ysgol, neu ddarparu adnoddau fel sachau stori	Cyfnod Sylfaen – Ymgysylltu er mwyn dysgu (Thema 4: Adnodd 1) Oedran cynradd 7–11 – Ymgysylltu er mwyn dysgu (Thema 4: Adnodd 2)
trefnu gweithgareddau ychwanegol i feithrin ymgysylltu â dysgu ymysg teuluoedd nad ydynt i'w gweld yn darparu llawer o gefnogaeth ar gyfer dysg eu plentyn, teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig a/neu deuluoedd plant sy'n tanberfformio ar hyn o bryd. Gwerthuso effaith yr ymyriadau hyn er mwyn datblygu a rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n llwyddo	Ysgolion uwchradd – Ymgysylltu er mwyn dysgu (Thema 4: Adnodd 3) Cyrraedd yr holl deuluoedd (Thema 3: Adnodd 3) Dulliau cyfathrebu (Thema 3: Adnodd 5) Gwerthuso (Thema 1: Adnodd 6)
adnabod dysgwyr nad ydynt i'w gweld yn cael llawer o gefnogaeth ar gyfer dysgu yn y cartref a threfnu rhai ymyriadau o fewn yr ysgol i helpu i wneud iawn am hyn (e.e. clybiau gwaith cartref, gweithiwr arweiniol neu weithio un i un).	Ymyriadau ar gyfer dysgwyr sy'n cael llai o gefnogaeth yn y cartref (Thema 4: Adnodd 4)

Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau'r pecyn cymorth
• (Cyfathrebu dwyffordd rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr) mae'r ysgol yn arloesi yn ei defnydd o ddulliau cyfathrebu, gan ddefnyddio rhai sy'n cwrdd ag anghenion teuluoedd. Mae fformat y trafodaethau un i un â rhieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn wedi'i seilio ar gydnabyddiaeth bod rhieni/gofalwyr yn bartneriaid yn addysg y plentyn. Mae'r trafodaethau hyn yn un rhan o ddeialog parhaus lle mae'r ysgol yn rhoi gwybod am yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'n cynnig llawer o anogaeth i deuluoedd ynghylch ffyrdd iddynt gefnogi'r dysgu hwnnw, tra bydd teuluoedd yn rhoi adborth am y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen a'i heisiau. Mae teuluoedd a staff yn delio â meysydd sy'n peri pryder ac anhawster gyda'i gilydd.	• Ailfeddwl am nosweithiau rhieni/gofalwyr (Thema 3: Adnodd 6) • Dulliau cyfathrebu (Thema 3: Adnodd 5) • Delio â gwrthdaro a chwynion (Thema 3: Adnodd 9) • Cyfnod Sylfaen – Ymgysylltu er mwyn dysgu (Thema 4: Adnodd 1)
• (Gweithgareddau dysgu fel teulu) mae ysgolion yn trefnu set strategol o weithgareddau i hyrwyddo ymgysylltu â dysgu ymysg teuluoedd. Bydd y rhain wedi'u cynllunio drwy bartneriaeth ar sail amgylchiadau, anghenion a dymuniadau teuluoedd. Gellir targedu'r gweithgareddau dysgu hyn ar deuluoedd sydd â phlant sydd ag angen penodol am gefnogaeth gan eu teulu i ddatrys anawsterau neu chwalu rhwystrau sy'n ymwneud â dysgu, neu ar deuluoedd lle mae'n ymddangos bod diffyg cefnogaeth ar gyfer dysgu. Gellir defnyddio'r gweithgareddau hyn hefyd i hwyluso dysgu gan aelodau o deuluoedd (megis sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol sylfaenol) ac, mewn achosion o'r fath, mae oedolion yn cael eu cymell i barhau â'u dysgu eu hunain. Caiff ymyriadau eu gwerthuso.	• Oedran cynradd 7–11 – Ymgysylltu er mwyn dysgu (Thema 4: Adnodd 2) • Ysgolion uwchradd – ymgysylltu er mwyn dysgu (Thema 4: Adnodd 3) • Rhaglenni Dysgu fel Teulu (Thema 4: Adnodd 5) • Cyrraedd yr holl deuluoedd (Thema 3: Adnodd 3) • Gwerthuso (Thema 1: Adnodd 6)
• (Gweithgareddau penodol i gwrdd ag anghenion rhai dysgwyr) rhoddir ymyriadau ar waith o fewn yr ysgol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cael llawer o gefnogaeth yn y cartref, er mwyn helpu i wneud iawn am hyn.	• Ymyriadau ar gyfer dysgwyr sy'n cael llai o gefnogaeth yn y cartref (Thema 4: Adnodd 4)

Ciplun

Cynradd

Mae **Ysgol Parc Waundew (Richmond Park School)** yn cynnal mentrau 'PEAS' (Parents Engaged Actively in School) a 'DREAMS' (Developing Reading, English And Maths) gyda'r bwriad o ymgysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn gwella presenoldeb, llythrennedd a rhifedd. Mae teuluoedd yn cael eu hannog i ddod i'r ysgol drwy gynnal 'Family Fridays', Clwb Learndirect a chlwb ar ôl ysgol 'Generation Games' lle bydd rhieni/gofalwyr a phlant yn dysgu gyda'i gilydd, gan gynnwys TGCh, darllen a sgiliau coginio, ac ati. Mae'r ysgol yn helpu teuluoedd i ddatblygu dulliau cyson o ymdrin â llythrennedd a rhifedd ('eu haddysgu i addysgu'). Drwy ddefnyddio cyfrifon 'Bug Club' a 'Sumdog' ar-lein mae pob plentyn yn gallu cael gafael ar lyfrau a deunyddiau rhifedd yn y cartref. Mae gwirfoddolwyr darllen o blith y rhieni/gofalwyr yn helpu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn ymgysylltu â theuluoedd hefyd drwy Facebook a Twitter. Mae oedranau darllen, canraddau rhifedd a chyfraddau presenoldeb i gyd wedi gwella'n sylweddol.

Uwchradd

Mae 1,600 o ddysgwyr yn **Ysgol Uwchradd Fitzalan** ac mae 38 y cant ohonynt yn 'newydd iawn' i'r Saesneg. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i ymgysylltu â theuluoedd i gefnogi dysg y plant. Mae gwasanaeth Porth Dysgu ar-lein yn darparu adroddiadau cyfredol ar ymddygiad a phresenoldeb plant a'u cynnydd dysgu. Ymgysylltir â rhieni/gofalwyr drwy ddosbarthiadau rhianta a nosweithiau 'addysgu'ch plentyn i ddysgu' – gan gynnwys rhai ar godi hunan-barch plant, sut y mae'r ymennydd yn gweithio, sut y mae dysgwyr yn dysgu mathemateg heddiw, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill mewn ysgolion, sut y gallwch helpu'ch plentyn, ac ymdopi â chyffro'r ardegau. Mae hefyd yn darparu pecynnau cymorth i deuluoedd sy'n rhoi cyngor ar gymwysterau, cefnogi dysgwyr, gwaith cwrs a phynciau eraill. Mae'r gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd wedi gwella presenoldeb ac wedi helpu i wella deilliannau ym mhob un o'r cyfnodau allweddol.

Arbennig

Mae Estyn wedi nodi bod **Ysgol Arbennig Crownbridge** yn arwain y sector o ran y ffordd y mae'n hysbysu rhieni a gofalwyr yn llawn am gynnydd eu plentyn. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn elfen hanfodol yn holl waith yr ysgol. Mae'n cael gwybodaeth gan ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a'r gwahanol bartneriaid sy'n ymwneud â nhw. Mae'n gwrandao ar eu barn er mwyn cael dealltwriaeth drylwyr o'r hyn sy'n bwysig iddynt ac i'r dysgwr a'r hyn sy'n llwyddo neu'n methu er mwyn penderfynu ar raglen unigol a chynllunio llwybrau. O ganlyniad i hyn, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol tuag at gyrraedd y targedau a gytunwyd. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi i sicrhau bod adolygiadau blynyddol a chyfarfodydd cynllunio'n dilyn y fformat hwn.

Pecyn cymorth – Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol

Mae gweithio amlasiantaethol yn bwysig ar gyfer hwyluso trosglwyddo gan ysgolion, a hefyd ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr mewn teuluoedd sy'n wynebu lluo o broblemau. Y man cychwyn ar gyfer hyn yw beth sy'n bwysig i'r dysgwr a'i deulu. Mae gweithio drwy bartneriaethau cymunedol yn gallu hybu gwaith yr ysgol ar ymgysylltu â theuluoedd, cryfhau'r ysgol mewn ffyrdd eraill a chyfoethogi bywyd yr ysgol. Y man cychwyn yw beth sy'n bwysig i'r ysgol hon.

Dylai pob ysgol:	Adnoddau'r pecyn cymorth
sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda mewn materion diogelu plant a'u bod yn defnyddio gweithio amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu lluo o broblemau, gan ddefnyddio prosesau cyfeiriol effeithiol o dan y dull Tîm o Amgylch y Teulu	Gweithio amlasiantaethol (Thema 5: Adnodd 2)
sicrhau bod ganddi berthnasoddd effeithiol â lleoliadau sy'n ei bwydo i hwyluso trosglwyddo ac i adnabod a chynllunio ar gyfer unrhyw faterion sy'n wynebu dysgwyr penodol y mae'n eu derbyn – mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a dilynir protocolau priodol ar gyfer diogelu data	Trosglwyddo (Thema 3: Adnodd 4)
dod i adnabod ei chymuned a meithrin rhai partneriaethau a fydd yn cryfhau'r ysgol.	Datblygu partneriaethau cymunedol (Thema 5: Adnodd 1)

Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau'r pecyn cymorth
(Helpu teuluoedd i ddod o hyd i gefnogaeth ychwanegol) mae rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth gan yr ysgol am amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael yn y gymuned. Mae'r ysgol yn cael gafael ar gymorth ychwanegol i deuluoedd sydd â'i angen oddi wrth amrywiaeth o wasanaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, therapi iaith a lleferydd, iechyd a seicolegwyr addysgol. Os oes modd, bydd gwasanaethau cymunedol wedi'u lleoli ar safle'r ysgol er mwyn ei gwneud yn haws cyrraedd gwasanaethau a chreu ysgol sy'n ganolbwynt i'r gymuned. Rhai o'r gwasanaethau y gellid eu cynnwys yw crèche, Dechrau'n Deg, undebau credyd, Cyngor ar Bopeth a Cymunedau yn Gyntaf.	Gweithio amlasiantaethol (Thema 5: Adnodd 2)
(Trosglwyddo rhwng ysgolion) mae'r ysgol wedi meithrin perthnasoddd cadarnhaol â'r lleoliadau sy'n ei bwydo a'r lleoliadau sy'n cael eu bwydo ganddi hi, gan sicrhau bod trosglwyddiadau wedi'u cynllunio a'u hwyluso, a bod gwybodaeth am faterion neu bryderon sy'n ymwneud â dysgwyr penodol yn cael ei throsglwyddo er mwyn cynllunio ar eu cyfer. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a dilynir protocolau priodol ar gyfer diogelu data.	Trosglwyddo (Thema 3: Adnodd 4)

Mewn ysgolion llwyddiannus ...	Adnoddau'r pecyn cymorth
• (Gweithio drwy bartneriaethau cymunedol) mae'r ysgol yn ymwneud â phartneriaethau cymunedol mewn ffordd strategol gan gynllunio ar gyfer meithrin perthnasoedd penodol, cytuno ar ddeilliannau, rhannu adnoddau os oes modd a gwerthuso'r effaith. Mae partneriaid cymunedol yn helpu'r ysgol yn ei gwaith ar ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau pwysig yn y gymuned ac mae wedi sefydlu perthnasoedd â'r prif grwpiau yn yr ardal gan gynnwys grwpiau ffydd, ac mae'n cyfrannu 'cyfalaf cymdeithasol' i'r gymuned. Mae'r ysgol yn cynnal rhai o'i gweithgareddau mewn canolfannau cymunedol eraill – pyllau nofio, canolfannau hamdden, theatrau ac amgueddfeydd – ac yn cynnig ei chyfleusterau ei hun i'w defnyddio gan grwpiau lleol, megis dosbarthiadau dysgu yn y gymuned i oedolion. Mae siopau a busnesau lleol yn cefnogi digwyddiadau'r ysgol ac yn cyfrannu at ddysg y plant drwy gynnig ymweliadau neu leoliadau gwaith.	• Datblygu partneriaethau cymunedol (Thema 5: Adnodd 1)

Ciplun
Cynradd
Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro yn gwneud defnydd mawr o'r dull Tîm o Amgylch y Teulu, ac yn gwneud defnydd effeithiol o weithio amlasiantaethol i hyrwyddo lles dysgwyr a theuluoedd. Mae canolfan Dechrau'n Deg ar safle'r ysgol, ac mae staff yn gweithio gyda Dechrau'n Deg ac ymwelwyr ieuchyd i adnabod y plant sydd ar fin dechrau yn yr ysgol y bydd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt. Mae'r ysgol yn bartner hanfodol mewn prosiectau Cymunedau yn Gyntaf a Sbardun ac yn hwyluso gweithgareddau dysgu i deuluoedd ac oedolion rhwng 8am a 6pm yn ystod y tymor ysgol a hefyd ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae'r holl deuluoedd yn cael eu croesawu i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol ac ymwneud fel partneriaid â dysg eu plentyn.
Uwchradd
Mae Ysgol Gyfun Coedcae yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r dull Tîm o Amgylch y Teulu i wella presenoldeb, ymgysylltu a chynhwysiant cymdeithasol, ac i ostwng y nifer sy'n gadael heb gymwysterau, pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ac sy'n mynd i'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf. Cynhelir cyfarfodydd Tîm o Amgylch y Teulu yn yr ysgol bob wythnos o dan gadeiryddiaeth staff yr ysgol. Mae'r ysgol yn helpu teuluoedd i ddod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, yn lleihau'r nifer sy'n mynd i argyfwng, ac yn gwella deilliannau dysgu ar gyfer y plant sy'n gysylltiedig. Mae presenoldeb, cyrhaeddiad a lles emosiynol wedi gwella'n sylweddol, ac mae llai o waharddiadau.

Ciplun

Arbennig

Mae **Ysgol Portfield**, ysgol arbennig ar gyfer pob oedran, yn cydweithio'n agos â'i chymuned, gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr. Mae'r ysgol wedi datblygu cytundebau lefel gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth Iechyd Hywel Dda i sicrhau bod gweithio amlasiantaethol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth yn beth arferol. Cynhelir cyfarfodydd cynllunio amlasiantaethol bob mis sy'n canolbwyntio ar unigolion gyda rhieni/gofalwyr a gwahanol weithwyr proffesiynol i sicrhau bod pob agwedd ar fywyd y plentyn yn cael ei hystyried a'i chynnwys wrth gynllunio. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â gwasanaethau cymdeithasol i gynnal y clwb 'Tots to Teens' ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau er mwyn cynnig seibiant gwerthfawr i rieni/gofalwyr a darparu amgylchedd cymdeithasol i ddysgwyr lle gallant chwarae a chymysgu â'u cyfoedion.

Cysylltiadau â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru

Gwella ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld bod cryfhau YGaTh yn rhan bwysig o daith yr ysgol wrth ei gwella ei hun a'i fod yn gallu helpu i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â llythrennedd a rhifedd. Mae hyn wedi'i gydnabod yn nogfen Llywodraeth Cymru *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*.

"Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau yn gwybod bod gweithio gyda rhieni/gofalwyr, cyflogwyr a'u cymunedau yn rhan bwysig o'r hyn y maen nhw'n ei wneud i helpu eu dysgwyr i gyflawni eu potensial."

*Cymwys am oes (2014)*⁶.

Mynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd

Mae gormod o ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn methu â chyflawni eu potensial yn yr ysgol. Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol, ac yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen ar gyfer gweithredu – *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*⁸.

"The achievement of working-class pupils could be significantly enhanced if we systematically apply all that is known about parental involvement."⁷

Am nifer o resymau gwahanol, mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod â rhieni neu ofalwyr sy'n cymryd llai o ran yn addysg eu plant ac sydd efallai'n gweld ysgolion yn lleoedd bygythiol. Mae teuluoedd sydd â lefel isel o lythrennedd yn fwy tebygol o weld dysgu'n weithgarwch 'yn yr ysgol yn unig' ac yn llai tebygol o weld ei bod yn bwysig gosod esiamp drwy ddarllen yn y cartref. Gall teuluoedd prin eu cymwysterau fod yn fwy tebygol o fod â chanfyddiadau a phrofiad negyddol o addysg ysgol. Mae ymchwil wedi dangos bod ymgysylltu effeithiol rhwng teuluoedd ac ysgolion yn gallu cael effaith gadarnhaol anghymesur ar ddeilliannau dysgu ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd llai cefnog.

Mae YGaTh yn thema allweddol yn rhaglen Ailysgrifennu'r dyfodol, sy'n cynnwys y ddau uchelgais canlynol:

- ennyn diddordeb teuluoedd yn addysg a bywyd ysgol eu plant
- gwneud pob ysgol yn 'ysgol gymunedol'.

Rydym yn eich annog i ddarllen y cyfan am y thema hon yn Ailysgrifennu'r dyfodol ochr yn ochr â'r pecyn cymorth hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gefnogi ysgolion yn eu gweithgareddau ymgysylltu. Bydd ysgolion yn cymryd cam pwysig o ran mynd i'r afael ag effeithiau tlodi drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd yn y pecyn cymorth hwn i ymgysylltu'n benodol â theuluoedd y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

⁶ www.gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan/?skip=1&lang=cy

⁷ Desforges ac Abouchaar (2003) *The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievement and adjustment*.

⁸ www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?skip=1&lang=cy

Mae nifer o awgrymiadau yn y pecyn cymorth hwn y gellir gweithredu arnynt heb fod angen i'r ysgol wario arian ychwanegol. Mewn sefyllfaoedd lle mae costau'n codi, mae'n bosibl y byddwch yn gallu defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae canllawiau a chefnogaeth ar gael i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol, ac ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, drwy ddilyn y dolenni canlynol.

Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar	www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/pdg-and-early-years-pdg/?lang=cy
Beth sydd wir yn gweithio? Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar?	www.learning.gov.wales/resources/browse-all/pdg-what-really-works/?lang=cy
Difreintedd disgyblion – Mai 2014, Estyn	www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/difreintedd-disgyblion-mai-2014
Adnoddau Dysgu Cymru sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag effeithiau tlodi	dysgu.llyw.cymru/amddifadedd a phorwch yn yr adnoddau

Rhianta yng Nghymru

Mae rhieni/gofalwyr yn chwarae rhan ganolog mewn cysylltiad â deilliannau i blant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Rhianta yng Nghymru – Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth*⁹ ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn darparu cymorth rhianta, neu'n gyfrifol amdano. Mae wedi'i fwriadu i helpu awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a chomisiynwyr perthnasol eraill, rheolwyr ac ymarferwyr i wneud penderfyniadau ynghylch:

- y math(au) o gymorth rhianta sydd ei angen
- sut i'w ddarparu
- dulliau o helpu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr
- datblygu gweithluoedd
- prosesau asesu, dangos y ffordd ac atgyfeirio
- gwerthuso a monitro.

⁹ www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/?lang=cy

Adborth gennych chi

Byddwn yn falch o gael adborth gennych chi er mwyn parhau i wella'r pecyn cymorth hwn ar gyfer ysgolion. Er mwyn rhoi'ch barn i ni, anfonwch neges e-bost i wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad sydd y tu mewn i'r clawr blaen.

“ One of the most powerful but neglected supports for children's learning and development is family involvement both in and out of school.

Over 40 years of steadily accumulating evidence show that family involvement is one of the strongest predictors of children's school success, and that families play pivotal roles in their children's cognitive, social, and emotional development from birth through adolescence.”

Weiss et al. (2009) *Reframing Family Involvement in Education: Supporting Families to Support Educational Equity*. Columbia University.

Cydnabyddiaethau

Rydym yn ddiolchgar i'r canlynol am eu cymorth a'u cefnogaeth wrth ddatblygu'r ddogfen hon:

Angela Davies (Secondai) – Cast Cymru

Kenneth Dicks (Secondai) – Consortiwm Canol De Cymru

Louise John (Secondai) – Pennaeth, Ysgol Waun Wen, Abertawe

Syr Alasdair MacDonald – Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru

Liz Miles – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro, Estyn

Claire Armitstead – Pennaeth, Ysgol Uwchradd y Rhyl

Bethan Hocking – Pennaeth, Ysgol Gynradd Herbert Thompson

Julia Buckley Jones – Pennaeth, Ysgol Gynradd Glan Gele

Amanda Taylor – Pennaeth, Ysgol Gynradd Trallwn

Michele Thomas – Pennaeth, Ysgol Gynradd Doc Penfro.

Hoffem ddiolch i'r unigolion canlynol hefyd am gynnal adolygiad academiaidd o'r canllawiau:

Robert Cornwall – Academydd annibynnol

Yr Athro Charles Desforges, OBE, BSc Llundain, PhD Caerhirfryn, Athro Emeritws – Prifysgol Caerwysg

Dr Janet Goodall, EdD, STL, BA, Darlithydd Addysg – Prifysgol Caerfaddon.